

Syrffio'r drydedd don?: heriau cyfoes astudiaethau rhywedd

31 Ionawr 2016

Annwyl Marged, Ceridwen, Kathryn ac Elin,¹

A minnau newydd gyrraedd yn ôl yng Nghaerdydd, dyma anfon gair atoch i sôn rhywfaint am y gynhadledd 'Y Gymraes a'i Llên' a gynhaliwyd ddoe yn Aberystwyth. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus ac yn gyfle gwych i dalu teyrnged i'r gwaith pwysig a wnaeth y pedair ohonoch fel golygyddion *Y Traethodydd* yn Ionawr 1986, ynghyd â'r llenorion a gyfrannodd i'r rhifyn, Mari Elis, Meg Elis a Menna Elfyn; ac i'r holl rai a fu wrthi'n arloesi, yn torri tir newydd ac yn herio ffiniau'r 'Traddodiad Unllygeidiog'² ar hyd y blynyddoedd.

Roedd yn braf cael bod yn ôl yn Aberystwyth, lle cynheuwyd fy niddordeb yn y pwnc ar eich cwrs ysbrydoledig chi Marged, sef 'Merched a Llenyddiaeth'. Roedd y cwrs hwn, ynghyd â darllen testunau fel rhifyn arbennig *Y Traethodydd* 1986 yn wirioneddol yn drobwyt personol i mi. Cyn hyn, nid oedd rhywedd fel elfen ar hunaniaeth ddim wir yn fater y bûm i'n ei ddwys ystyried. Er clywed am ffeminyddiaeth, ymwybyddiaeth ddigon niwlog a oedd gennyf o'r term mewn gwirionedd a'r ymwybyddiaeth honno yn seiliedig, yn fwy neu lai, ar ystrydebau digon cyfeiliornus a berthynai i ddiwylliant poblogaidd. Roedd dysgu yn academiaidd, felly, am y portread o fenywod mewn llenyddiaeth ar hyd y canrifoedd ac absenoldeb llenyddiaeth gan fenywod yn y 'Canon llenyddol' yn bynciau a ddeffrodd fy chwilfrydedd ynghylch safle menywod mewn cymdeithas.

Roedd yn braf gweld eich gweld chi, Elin, yno'n cynrychioli'r tîm gwreiddiol a diddorol oedd clywed eich sgwrs am y modd yr aeth y pedair ohonoch ati i gydweithio ar y rhifyn. Er yr hoffwn i ddweud fy mod i'n cofio lansio'r gyfrol wreiddiol, go brin y gallaf honni hynny gan nad oeddwn ond yn wyth mis oed ar y pryd! Ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach roeddwn yn dal i deimlo fel babi yn y maes gan fod gan y siaradwyr eraill yn y gynhadledd ddoe brofiad llawer helaethach na mi ym maes y Gymraes a'i Llên, ond dyna ni, rhoddais dro ar gynnig *rhaf* sylwadau a oedd, gobeithio, yn cyfrannu rhywfaint at y ddeialog. Atodais fersiwn o'r papur i'r llythyr hwn er mwyn ichi gael ei ddarllen, os dymunwch. Fy mwriad oedd mynd ar ôl rhai o'r heriau sy'n ein hwynebu heddiw yn y maes hwn a chynnig trywyddau posibl ar gyfer y dyfodol wrth inni ystyried goblygiadau rhywedd fel agwedd ar hunaniaeth. Gosodais eich erthygl 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist'³ yn destun canolog i'r

¹ Penderfynwyd defnyddio ffurf y llythyr i gyflwyno'r darn hwn i olygyddion rhifyn arbennig *Y Traethodydd* (Ionawr 1986) er mwyn adleisio'r drafodaeth rhwng gwahanol genedlaethau o ffeminyddion megis yr hyn a gafwyd yn Anna Bondoc a Meg Daly (goln), *Letters of Intent: Women Cross the Generations to Talk* (New York: The Free Press, 1999).

² Teitl erthygl yn *Y Traethodydd* (Ionawr 1986), tt. 34-44. Ynddi eir ati i ystyried pam y mae nifer y menywod sy'n ysgrifennu yng Nghymru yn 'lleiafrif [...] ymhlith awduron y genedl', t. 39.

³ 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist', *Y Traethodydd*, 141 (Ionawr 1986), tt. 45-61.

ymdriniaeth gan ei bod yn cynnig cyfle i edrych yn ôl ar ddatblygiadau'r gorffennol ond hefyd i edrych ymlaen hefyd tua'r dyfodol yn y maes.

Mae croeso ichi gysylltu'n ôl, wrth gwrs, os hoffech barhau â'r drafodaeth.

Gyda chofion cynnes,

Rhiannon Marks

Syrffio'r drydedd don?: heriau cyfoes astudiaethau rhywedd

Amcan y papur hwn yw troi yn ôl at yr erthygl 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist' a ymddangosodd yn rhifyn arbennig *Y Traethodydd* 1986, a'i lleoli yng nghyd-destun y cysyniad o 'donnau' ffeminyddol yn rhyngwladol. Hoffwn ystyried yn benodol oblygiadau'r drydedd don ffeminyddol, yn rhyngwladol ac inni yma yng Nghymru, ynghyd â rhai o'r cwestiynau allweddol a'r heriau sy'n wynebu beirniadaeth lenyddol ym maes theori rhywedd heddiw.

Diffinio'r tonnau

Ym maes Astudiaethau Menywod tueddir i rannu symudiadau ffeminyddol gwahanol gyfnodau hanesyddol yn 'donnau' – er cydnabod nad oes modd taclus o wneud hyn a bod i ddelwedd y 'don' felly ei chyfyngiadau. Cyfrifir yn fras bod y don gyntaf yn cwmpasu'r cyfnod ers cynhadledd Hawliau Menywod America yn Seneca Falls, Efrog Newydd yn 1848, ynghyd â gweithgarwch y Suffragettes a'r ymgyrch i fynnu Pleidlais yma ym Mhrydain. Nodweddid y don hon gan ddyhead menywod yng nghymunedau'r Gorllewin i fynnu eu llais mewn sfferau lle y buont yn ddi-lais cyn hyn. Rhan anhepgor o'r gweithgarwch felly oedd mynnu cydraddoldeb a hunaniaeth wleidyddol i fenywod. Y pwynt allweddol yw nad oedd y menywod hyn yn gweithredu o reidrwydd fel 'mudiad' oherwydd mai label a dadogwyd arnynt yn hwyrach yw 'y don gyntaf'. Fel y dywed Amber E. Kinser:

The *labels* "first wave" and "second wave", [...] were created at the same time as a way of negotiating feminist space. These terms gave activist women of the late '60s the double-rhetorical advantage of cultivating new ideas while simultaneously rooting them in older, more established ground.⁴

O ganlyniad, mae diffinio union dyddiadau'r don gyntaf yn anodd ac yn dibynnu ar ddehongliad. Yn wir, gellid dadlau fod y don gyntaf yn mynd yn ôl mor bell ag 1792 at Mary Wollstonecraft a'i gwaith arloesol, *A Vindication of the Rights of Woman*, sy'n gwrthryfela yn

⁴ Amber E. Kinser, 'Negotiating Spaces For/Through Third-Wave Feminism', *NWSA Journal*, Vol. 16, 3, (Fall 2004), 129.

erbyn syniadau patriarchaidd a ystyrai fod menyw yn gynhenid israddol i ddyn, ac a fydd yn gydraddoldeb trwy ryddfrenio menywod yn wleidyddol ac yn gyfreithiol.

Ni ellir bod yn gwbl sicr o darddiad term 'yr ail don', ond fe'i poblogeiddiwyd i raddau helaeth gan Martha Weinman Lear yn ei herthygl 'The Second Feminist Wave'⁵ a bwysleisiodd yr angen i newid ffordd o feddwl erbyn y 1960au gan nad yr un oedd natur y gorthwrwm yn erbyn menywod ag a fu yn flaenorol. Wrth bennu ffiniau cyfnod yr ail don hon awgryma Amber E Kinser fod modd defnyddio'r term i ddynodi '[an] era of feminism rooted in and shaped by the 1960-1980s political climate'.⁶ Cafwyd pwyslais ar hyn a effeithiai'n uniongyrchol ar fywydau menywod o ran y corff a rhywioldeb, strwythurau grym yn y cartref ac yn y gymdeithas. Wrth ddisgrifio cymeriad gwleidyddol radical yr ail don, dadleua Imelda Whelehan fel a ganlyn:

emergent feminists of the late '60s and early '70s were inclined to be more reflective in their extensive analyses of "what it means to be a woman", and ready to question the foundations of existing social / familial relations'.⁷

Roedd lladmeryddion yr ail don felly yn coleddu ffeminyddiaeth hunanymwybodol iawn a oedd, chwedl Gillis, Howie a Munford yn cynnwys 'concentration on "woman", as both the object and subject of discourse'.⁸ O safbwynt beirniadaeth lenyddol ffeminyddol yr ail don, fe'i nodweddir gan nifer o linyddau trafod megis theorïau'r ffeminyddion 'Ffrengig' a'u pwyslais ar unigrywedd menyw a'r corff benywaidd⁹ ynghyd â gynofeirniadaeth a ganolbwyntia ar ddadansoddi testunau llenyddol gan awduron o fenywod a dod o hyd i leisiau 'coll' a anwybyddwyd cyn hyn yn y 'canon' llenyddol.¹⁰

Os trown ein golygon at y drydedd don ffeminyddol, ceir cryn amwysedd ynghylch ei hunion fanylion a'i nodweddir.¹¹ Mae'n debyg y bathwyd term y 'third wave' gan Rebecca Walker yn America yn 1992 mewn erthygl ar gyfer cylchgrawn *Ms.*¹² 'I am not a postfeminism

⁵ Martha Weinman Lear, 'The Second Feminist Wave', *New York Times Magazine*, March 10 1968, 24-25.

⁶ Amber E. Kinser, 'Negotiating Spaces For/Through Third-Wave Feminism', *NWSA Journal*, Vol. 16, 3, (Fall 2004), 132.

⁷ Imelda Whelehan, *Modern Feminist Thought: From the Second Wave to 'Post-feminism'* (New York: New York University Press, 1995), t.8.

⁸ Stacy Gillis, Gillian Howie & Rebecca Munford. *Third Wave Feminism: a critical exploration*, (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2007), t. Xxi.

⁹ Gweler Hélène Cixous, *Le rire de la Méduse* "L'Arc, 61 (1975): 39-54; Luce Irigaray, *The Sex Which Is Not One*, cyfieithiad Catherine Porter a Carolyn Burke o *Ce sexe qui n'en est pas un* (Ithaca, New York: Cornell University Press, 1985).

¹⁰ Dau destun allweddol yn Saesneg yw Sandra Gilbert a Susan Gubar, *The Madwoman in the Attic* (New Haven: Yale University Press, 1979) ac Elaine Showalter, *A Literature of their Own: British Women Novelists from Brontë to Lessing* (Princeton; Guildford: Princeton University Press, 1977).

¹¹ Dadleua Niamh Moore fod y dadleuon ynghylch categorïddio 'y drydedd don' ac 'ôl-ffeminyddiaeth' yn arwydd o bryder ehangach ynghylch cyflwr presennol ffeminyddiaeth, 'Imagining Feminist Futures: The Third Wave, Postfeminism and Eco/Feminism, Gillis, Howie a Munford (eds.), *Third Wave Feminism – A Critical Exploration*, t. 125.

¹² Rebecca Walker, 'Becoming the Third Wave', *Ms.* (January-February 1995), 39-41.

feminist. I am the third wave' meddai, gan awgrymu i bob pwrpas bod y drydedd don yn endid ar wahân i ôl-ffeminyddiaeth a ffeminyddiaeth yr ail don. Mewn antholeg a gyhoeddwyd ganddi yn 1995¹³ geilw Walker am yr angen i fenywod symud oddi wrth ffordd ddeuol, ranedig o feddwl am eu hunaniaeth, a chofleidio amrywiaeth o fewn ffeminyddiaeth: 'facing and embracing their contradictions and complexities and creating something new and empowering from them'.¹⁴ Mae diffinio'r drydedd don yn bwnc dyrys ac yn wir awgryma Imelda Whelehan, 'it differs and moulds to as many identities as there are practitioners and thinkers.'¹⁵ Er cydnabod y lluosogrwydd hwn, cynigia Amber E. Kinser, ddiffiniad defnyddiol trwy ganolbwyntio ar rai nodweddion penodol, megis y ddwy nodwedd ganlynol:

- they embrace pluralistic thinking within feminism and work to undermine the narrow visions of feminism and their consequent confinements, through in large part the significantly more prominent voice of women of color and global feminism
- they live feminism in constant tension with postfeminism, though such tension often goes unnoticed as such.¹⁶

Gwelir felly fod y drydedd don yn galw am ddull amlweddog o feddwl am ffeminyddiaeth, ac yn cynnig cyfle i archwilio'r cysyniad fod rhywedd yn cael ei greu gan gymdeithas yn hytrach na bod yn ffenomen a bennir yn ôl bioleg yn unig. Fel y dengys Lise Shapiro Sanders â'r drydedd don i'r afael â herio hanfodaeth (*essentialism*) yn hytrach na chyffredinoli ynghylch y categori 'menyw': 'third wave feminists have come to emphasise the diversity of women's experience over the similarities amongst women, often to such a degree that feminism's present and future can seem irretrievably fractured.'¹⁷

Lleoli rhifyn arbennig *Y Traethodydd*

Ar y cyfan, naratif Eingl-Americanaidd a ddarparwyd hyd yma wrth ddiffinio'r tonnau, ond os trown ein golygon at Gymru a'r gweithgarwch ym maes beirniadaeth lenyddol Gymraeg, beth yw cydberthynas *Y Traethodydd* Ionawr 1986 a'r tonnau uchod? Yn y cyd-destun hwn, gwelir bod ymddangosiad y rhifyn arbennig yn cyd-daro ag amcanion yr ail don ffeminyddol yn rhyngwladol o ran y modd yr eir ati i dynnu sylw at batriarchaeth y traddodiad llenyddol¹⁸

¹³ Rebecca Walker. *To Be Real: Telling the Truth and Changing the Face of Feminism* (New York: Doubleday, 1995).

¹⁴ Rebecca Walker, *To Be Real*, t. xxxv.

¹⁵ Imelda Whelehan, 'Foreword' yn Stacy Gillis, Gillian Howie, Rebecca Munford (eds.) *Third Wave Feminism – A Critical Exploration* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2007), t. xviii..

¹⁶ Amber E. Kinser, 'Negotiating Spaces For/Through Third-Wave Feminism', *NWSA Journal*, Vol. 16, 3 (Fall 2004), 133.

¹⁷ Lise Shapiro Sanders, "'Feminists Love a Utopia": Collaboration, Conflict and the Futures of Feminism', Gillis, Howie a Munford (eds.), *Third Wave Feminism – A Critical Exploration*, t. 7.

¹⁸ Gweler 'Traddodiad Unllygeidiog', 34-44.

a'r modd yr eir ar ôl hanes llenorion benywaidd y gorffennol.¹⁹ Parhad o'r gweithgarwch hwn rai blynyddoedd yn ddiweddarach yw'r ymgais i sefydlu blodeugerddi o farddoniaeth Gymraeg gan fenywod,²⁰ a'r holl astudiaethau academiaidd gwerthfawr sy'n ailddiffinio'r 'canon' ac yn mynd ar drywydd gweithiau llenyddol menywod a anwybyddwyd cyn hyn.²¹

Mae pennu union ffiniau'r drydedd don yn anos gan nad oes trafodaethau sy'n eu diffinio eu hunain felly ar goedd yn y Gymraeg. Yn sicr mae gweithgarwch y rhifyn arbennig o *Tu Chwith* yn 1996, 'O'r Iard Gefn',²² yn symud y drafodaeth ar ffeminyddiaeth yn ei blaen a chydnebydd y golygyddion 'bod ffeminyddiaeth wedi newid, wedi mynd yn fwy ymwybodol o wahaniaethau o fewn y mudiad, ac felly yn fwy amlochrog.'²³ Â Francesca Rhydderch ati i drafod gweithiau Irigaray a Cixous a chrybwylla'r angen i '[g]westiynu'r categorïau benyw/gwryw'.²⁴ Serch hynny, dywed fod ethos cylchgrawn *Tu Chwith* 'o dan Ddeddf y Tad' a bod hyn yn 'rhwystro dadlau ynglŷn a sut yr adeiledir gwryweidd-dra a benyweidd-dra, am am berthynas y cysyniadau hyn â systemau pŵer.'²⁵ Cydnebydd Mererid Puw Davies hithau fod 'argyfwng' ym maes ffeminyddiaeth yn wyneb yr 'oes ôl-fodern' a'r 'meddwl ôl-strwythurol', a bod hyn yn arwain at ailystyried 'syniadau ansymudol ynglŷn â "rhyw" a chenedl / gender'.²⁶ Er nad yw'n manylu ar y mater hwn, mae'r erthygl yn werthfawr yn y modd yr â ati i ymestyn ffiniau'r drafodaeth i gwmpasu 'ffeminyddiaeth liw' yng nghydestun gwaith yr awdures Chicana, Gloria Anzaldúa. Cynigia'r ffeminyddiaeth hon safbwynt amgen i naratif Eingl-Americanaidd yr ail don, yn y modd y geilw Anzaldúa am gamu y tu hwnt i ffordd ddeuaidd o feddwl am hunaniaeth ryweddol, ac awgryma Mererid y gallai'r erthygl daro tant â 'ffeministiaid amlieithog Cymru.'²⁷ (t. 18). Mae'r erthygl felly yn codi cwr y llen ar y modd y gellid ymgorffori agweddau eraill ar wleidyddiaeth hunaniaeth i'r drafodaeth ffeminyddol.

Crybwyllwyd eisoes mai nodwedd ar y drydedd don yw ei lluosogrwydd ac i raddau gwelir hyn yn brigo i'r golwg yn y trafodaethau uchod. Wedi dweud hynny, prin yw'r testunau yn y Gymraeg sy'n mynd ati i archwilio'n llawn oblygiadau rhywedd fel perfformiad cymdeithasol

¹⁹ Gweler 'Beirdd Benywaidd yng Nghymru cyn 1800', 12-27.

²⁰ Gweler er enghraifft, Menna Elfyn (gol.), *Hel Dail Gwyrdd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1985); Menna Elfyn (gol.), *O'r Iawn Ryw* (Dinas Powys: Gwasg Honno, 1991); Katie Gramich & Catherine Brennan (goln), *Welsh Women's Poetry 1460-2001* (Dinas Powys: Gwasg Honno, 2003); Cathryn A. Charnell-White (gol.), *Beirdd Ceridwen: Blodeugerdd Barddas o Ganu Menywod hyd tua 1800* (Llandybïe: Cyhoeddiadau Barddas 2005).

²¹ Gweler er enghraifft, Nerys Ann Howells, *Gwaith Gwerful Mechain ac eraill* (Aberystwyth : Canolfan Uwchefrydiau Cymraeg a Cheltaidd, 2001); Jane Aaron, *Pur fel y Dur: Y Gymraes yn Llên Menywod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998).

²² Gweler Jane Aaron, Kate Crockett a Francesca Rhydderch (goln), *Tu Chwith – O'r Iard Gefn*, 6 (Hydref 1996).

²³ 'Prolog', Aaron, Crockett a Rhydderch (goln), *Tu Chwith – O'r Iard Gefn*, 6 (Hydref 1996), t.9.

²⁴ Francesca Rhydderch, 'Diffinio Ffeminyddiaeth yng Nghymru heddiw', *Tu Chwith – O'r Iard Gefn* (Hydref 1996), t. 37.

²⁵ Ibid., t. 39.

²⁶ Mererid Puw Davies, 'Datod tafodau: Gloria Anzaldúa a Ffeministiaethau color', *Tu Chwith – O'r Iard Gefn*, 6 (Hydref 1996), t. 11.

²⁷ Ibid., t. 18.

(yn llinach syniadaeth Judith Butler a'i *Gender Trouble*) a phrin hefyd yw'r ymgeisiau bwriadol i herio'r rhaniad deuaidd o feddwl yn nhermau'r categorïau menyw/dyn. Mae lle i ystyried felly pam na pharhawyd i ddatblygu'r drafodaeth ar 'rywedd' a gychwynnwyd yn y testunau uchod, ac i ofyn a fu trydedd don o gwbl yn y Gymraeg, fel a welwyd yn y cyd-destun Eingl-Americanaidd?

Trosiad y don

Efallai mai'r gwir amdani yw fod unrhyw ymgais i fapio union gyfnodau tonnau a'u parselu yn daclus yn cwmpo dan bwysau'r orchwyl amhosibl. Er y gall y weithred o feddwl am gyfnodau gwahanol o fewn ffeminyddiaeth ein cynorthwyo i weld rhai tueddiadau, mae'r ymgais i fapio newidiadau Eingl-Americanaidd ar ddiwylliant lleiafrifol y Gymraeg yn rhwym o gymhlethu'r mater. A beth am drosiad y 'don'? Ar ryw wedd gall ein cynorthwyo i drafod gwahanol symudiadau o fewn 'ffeminyddiaeth' ac eto mae perygl creu rhaniadau sy'n rhydwythiadol ac yn symleiddio'r drafodaeth.²⁸ Dadleua nifer yn erbyn trafod yn nhermau tonnau gan awgrymu bod y trosiad yn awgrymu fod un yn dod i gymryd lle neu i foddî'r llall ac awgryma Judith Roof fod perygl creu rhaniadau camarweiniol hefyd wrth drefnu ffeminyddiaeth yn nhermau 'cenedlaethau':

adopting a generational metaphor means espousing more than a convenient way of organizing the relations among women of different ages, experience, class position, and accomplishment. It means privileging a kind of family history that organizes generations where they don't exist, ignores intergenerational differences and intergenerational commonalities, and thrives on a paradigm of oppositional change.²⁹

Serch hynny, yn ei rhagymadrodd i *No Permanent Waves* awgryma'r golygydd Nancy Hewitt nad disgwrs o wrthryfela yn erbyn yr hyn a fu a berthyn i ddelwedd y don, a chynigia ei bod yn fodd o ymestyn ffiniau'r achos ar draws sawl cyfnod: 'feminists in each wave viewed themselves as both building on and improving the wave(s) that preceded them'.³⁰ Awgryma Luce Irigaray hithau fod datblygiad ynghyd â pharhad ynghlwm wrth ddelwedd y don: '[it] could suggest a moving ceaselessly without ever changing the bottom which supports such a movement.'³¹ Yn yr un modd, pwysleisia Roda Shaw nad dileu'r ail don a wna'r drydedd don: 'the second wave doesn't suddenly cease to exist so that the third wave can come of age.

²⁸ Dyna yw dadl Gillian Howie ac Ashley Tauchert: 'the metaphor of the wave is more suggestive than its common use implies and, paradoxically, runs the risk of simplifying the tradition it is called upon to describe.' Gillian Howie & Ashley Tauchert, 'Feminist Dissonance: The Logic of Late Feminism', Gillis, Howie a Munford (eds.), *Third Wave Feminism – A Critical Exploration*, t. 46.

²⁹ Judith Roof, 'Generational Difficulties; or, The Fear of a Barren History.' Devoney Looser & E. Ann Kaplan (eds.) *Generations: Academic Feminists in Dialogue* (Minneapolis: Minnesota University Press, 1997), t. 72.

³⁰ Nancy Hewitt (ed.), 'Introduction', *No Permanent Waves*, 2010, New York: Rutgers University Press, t.2.

³¹ Gillian Howie 'Interview with Luce Irigaray', Gillis, Howie a Munford (eds.), *Third Wave Feminism – A Critical Exploration*, t. 283.

Rather the latter brings to the fore features of the former that have been hidden, marginalised, subordinated and considered secondary.³²

O dderbyn diffiniad Shaw felly mae modd meddwl am y tonnau fel ffordd o barhau â'r ddeialog – ac o fynd i'r afael â materion ffeminyddol a godwyd eisoes a'u hystyried mewn goleuni newydd sy'n addas i'r oes sydd ohoni. Yn wir, yn ôl Julia Kristeva, wrth feddwl am gydberthynas y gwahanol genedlaethau gellid ystyried fod modd iddynt gydfodoli ar yr un pryd: the 'parallel existence of all three in the same historical time, or even that they be interwoven one with the other.'³³

Yn ein cyd-destun ni heddiw, wrth inni feddwl am ddyfodol y maes, pa un ai ydym am ddiffinio ein gweithgarwch yn 'drydedd don' neu'n 'genhedlaeth newydd', mae'n hollbwysig ein bod yn llawn ddeall a gwerthfawrogi arwyddocâd yr ail don ffeminyddol – a chyhoeddiadau pwysig fel *Y Traethodydd* (Ionawr 1986) – er mwyn adeiladu ar yr hyn a wnaed eisoes. Fel y dywed Baumgardner a Richards, wrth sôn am bwysigrwydd deialog rhwng cenedlaethau: 'pragmatically, recounting the stories of feminism shows older women that the next generation is aware of their struggles, and shows younger women that their rebellion has a precedent'.³⁴

'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist'

Gadewch inni droi ein golygon yn ôl at 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist'³⁵ er mwyn ailymweld â rhai o brif negeseuon yr erthygl. Fel y cofiwch, cyhoeddiad ar y cyd oedd y rhifyn arbennig hwn, ac ni roddwyd enwau unigol wrth deitlau'r erthyglau felly'r person cyntaf lluosog sy'n siarad yn erthygl.³⁶ Roedd yn safbwynt gwirionedd arloesol ar y pryd ac yn arwydd o'r ysbryd chwaerol sy'n hydreiddio'r gyfrol. Yn wir, mae erthyglau cywaith o'r fath yn dal i fod yn bethau prin ym maes beirniadaeth lenyddol Gymraeg ond diau fod a wnelo hynny ag amodau cyfansoddi a thafoli gweithiau ymchwil academiaidd yr oes sydd ohoni.

Ar sawl gwedd, mae 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist' yn parhau i fod yn ddarn gwirioneddol ddefnyddiol i'r sawl sydd am fwrw iddi i ddeall hanfodion darllen cerdd o safbwynt ffeminyddol ac mae'n cynnig arweiniad hygyrch i fyfyrwyr sy'n gweithio ar draethodau hir yn y maes. Er bod yr erthygl yn honni mai man cychwyn ydyw, mai 'ar ei phrifiant y mae beirniadaeth lenyddol ffeminist' ac yr 'erys rhagor o waith eto i'w wneud yn

³² Roda Shaw. "Our Bodies, Ourselves," *Technology and Questions of Ethics: Cyberfeminism and the Lived Body*, *Australian Feminist Studies* 18.40 (2003): t. 45.

³³ Julia Kristeva, 'Women's Time' (cyfieithiad Alice Jardine & Harry Blake), Toril Moi (ed.), *The Kristeva Reader*. (Oxford: Basil Blackwell, 1986), t. 209.

³⁴ Jennifer Baumgardner & Amy Richards, *Manifesta: Young Women, Feminism, and the Future*. New York: Farrar, Straus & Giroux, t. 68.

³⁵ 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist', 45-61.

³⁶ Gweler esboniad Kathryn Hughes a Ceridwen Lloyd-Morgan yn 'Cylchoedd Dieflig', *Tu Chwith*, 6, 66-69.

y maes hwn',³⁷ gwyntyllir nifer o syniadau rhywngwladol yn y maes ac fe'u cymhwysir yn gelfydd i gyd-destun llenyddiaeth Gymraeg, yn enwedig barddoniaeth Gymraeg.

Dadansoddir, er enghraifft, y modd y portreedir menywod mewn barddoniaeth gan ddynion megis Dic Jones, Alun Cilie, Gwyn Thomas ac Alan Llwyd; pwnc a oedd yn gwbl arloesol ar y pryd yn y Gymraeg.

Wrth ailddarllen yr erthygl ar gyfer creu'r papur hwn, roedd yn drawiadol cymaint o agweddau arni sy'n dal i fod yn berthnasol heddiw wrth ymhél â dadansoddi llenyddiaeth o safbwynt ffeminyddol. Dyma grynodedb o'r prif bwytiau a'm trawodd:

- 1) Yr angen i arloesi a chanfod llwybrau newydd ym maes beirniadaeth lenyddol: 'Ein gobraith ni yw y bydd beirniadaeth ffeminist yn agor drysau nas agorwyd o'r blaen [...] ac yn ein deffro i agweddau newydd ar lenyddiaeth doe a heddiw gan ferched a dynion.'³⁸
- 2) Awgrymir perygl canolbwytio'n ormodol ar fenyweidd-dra fel y maen prawf a dyrchafu gweithiau o'r fath: 'mae eisiau gofalu nad ydym yn syrthio i'r un fagl â'r dynion trwy gondemnio llenyddiaeth wrywaidd a chanmol yn ddiwahân bopeth sy'n dod o ysgrifbin merch.'³⁹
- 3) Honnir bod angen cydnabod lluosogrwydd ym maes ffeminyddiaeth : 'ni allwn sôn am *un* mudiad ffeminist monolithig fwy nag y gallwn sôn am *un* math o Gymreictod; nid oes ychwaith *un* dull 'cywir' o ymarfer beirniadaeth lenyddol ffeminist'.⁴⁰
- 4) Dadleuir bod maes ffeminyddiaeth yn nyddiau ei babandod yng Nghymru o'i gymharu â'r sefyllfa yn Lloegr a'r Unol Daleithiau – yn wir, ystyrir mai 'cropian yng Nghymru y mae'r gwaith o ailddarganfod ac ailasesu gwaith llenorion benywaidd y gorffennol'.⁴¹
- 5) Pwysleisir yr angen i arbrofi â dulliau newydd o gloriannu llenyddiaeth y ddau ryw: 'y cam pwysicaf oll, efallai, sef angen symud ymlaen i greu dulliau newydd o gloriannu llenyddiaeth y ddau ryw fel ei gilydd'.⁴²

Mae'r sylwadau hyn, yn sicr yn werth eu hystyried wrth inni barhau i ddatblygu dulliau o ddadansoddi'r berthynas rhwng rhywedd a llenyddiaeth, er mwyn bod ar flaen y gad yma yng Nghymru. Serch hynny, gadewch i ni ystyried yr elfennau 'cudd', y materion hynny a

³⁷ 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist', 45.

³⁸ Ibid., 56-7.

³⁹ Ibid., 54.

⁴⁰ Ibid., 57.

⁴¹ Ibid., 53.

⁴² Ibid., 54.

oedd yn 'marginalised, subordinated and considered secondary' chwedl Roda Shaw uchod⁴³ a'r themâu y gellid ymhelaethu arnynt wrth inni feddwl am ddyfodol y drafodaeth ar ffeminyddiaeth yng nghyd-destun llenyddiaeth Gymraeg.

Hanfodaeth

Un o'r pethau a ddaw i'r amlwg wrth ailddarllen yr erthygl yw'r pwyslais hanfodaidd ar fenyweidd-dra a'r hollt deuaidd a greir rhwng 'dynion' a 'menywod'. Ym myd athroniaeth, cyfeiria hanfodaeth at y gred fod hanfod i wrthrychau neu fodau, a bod yr hanfod yn greiddiol i'r modd y deuir i adnabod neu ddiffinio'r gwrthrych neu'r bodau. Yng nghyd-destun ffeminyddiaeth, mae agwedd hanfodaidd at fenyweidd-dra yn golygu, fel yr esbonia Alison Stone, 'that there are properties essential to women and which all women (therefore) share.'⁴⁴ Serch hynny, mae safbwynt o'r fath yn tueddu i ystyried menywod fel grŵp unffurf, ac mae'n nacáu'r gwahaniaethau unigol rhyngddynt. Gadewch inni droi at ambell enghraifft o hanfodaeth yng nghyd-destun yr erthygl dan sylw.

Cyfeirir, er enghraifft, at theori *androgyny* Virginia Woolf a'i delfryd o weld awdur yn 'byw ac ysgrifennu fel unigolyn, fel person, yn hytrach na fel dyn neu fenyw.'⁴⁵ Dadleua'r erthygl fod hon yn ddelfryd 'rhy uchelgeisiol' o ran y gymdeithas ond hefyd ei fod yn 'gwadu'r gwahaniaethau pwysig sydd rhwng dynion a merched.'⁴⁶ Awgrymir yn hytrach fod angen 'derbyn fod y ddau ryw yn edrych ar y byd mewn ffordd wahanol a'u bod yn byw profiadau gwahanol, a bod ganddynt eu meddylfryd eu hunain, a'u hiaith a'u dulliau mynegiant eu hunain.'⁴⁷ Gwelir yr un agwedd hanfodaidd yn y sylw canlynol: 'rhaid cydnabod, hefyd, fod llenyddiaeth dynion a merched yn debyg o fod yn unochrog mewn rhai pethau. Ni all yr un ohonom siarad dros y rhyw arall.'⁴⁸ Eir ati felly i sefydlu hollt deuaidd rhwng 'dynion' a 'merched' gan awgrymu bod y ddau yn hanfodol wahanol i'w gilydd ar sail eu rhyw, a bod hyn felly yn effeithio ar eu bydolwg a'u gwaith llenyddol.

Yn yr un modd, crybwyllir bod gan ddynion a menywod eu 'hiaith a'u dulliau mynegiant' eu hunain ac wrth drafod barddoni ar gyfer yr Eisteddfod dywedir bod: '[y] ferch yn gorfod ysgrifennu fel petai hi'n ddyn gan ddefnyddio'r ffurfiau cydnabyddedig a'r iaith "safonol".'⁴⁹ Mae'r sôn hwn am system fynegiant wahanol i ddynion a menywod yn dwyn i gof theorïau ffeminyddol seicoddadansoddol Luce Irigaray⁵⁰ a'r pwyslais ar fynegi'r dychymyg benywaidd trwy herio'r system iaith ffalogoganolog (*phallogocentric*). Mae'r theori hon ynghyd â theori

⁴³ Shaw. "Our Bodies, Ourselves," *Technology and Questions of Ethics: Cyberfeminism and the Lived Body*, t. 45.

⁴⁴ Alison Stone, 'On the Genealogy of Women: A Defence of Anti-Essentialism', Gillis, Howie & Munford (eds.), *Third Wave Feminism – A Critical Exploration*, t. 18.

⁴⁵ 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist', 54

⁴⁶ Ibid., 54.

⁴⁷ Ibid., 54.

⁴⁸ 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist', t. 55.

⁴⁹ Ibid., 46.

⁵⁰ Gweler Irigaray, *This Sex which is not One*, t. 162.

écriture féminine Hélène Cixous yn amcanu rhoi llais i'r profiad benywaidd trwy herio'r drefn symbolaidd patriarchaidd. Fodd bynnag, cymer safbwyntiau o'r fath yn ganiatol fod menyw a dyn yn hanfodol wahanol, a bod hyn yn effeithio ar foddau eu mynegiant. Fel y dywed Chris Weedon, 'they assume the existence of a naturally different female or feminine language'.⁵¹

Mae safbwyntiau hanfodaidd o'r fath yn nodweddiadol o'r cyfnod, ac yn taro tant gyda beirniadaeth lenyddol yr ail don yn rhyngwladol. Serch hynny, un o'r heriau sy'n ein hwynebu heddiw wrth ddadansoddi llenyddiaeth menywod a dynion, yw bod yn barod i archwilio 'hanfodaeth', ystyried i ba raddau y gellir defnyddio hanfodaeth yn strategol, a chanfod ffyrdd o ymddihatru o'i hualau. Wrth inni feddwl am ddyfodol y maes felly mae cyfle inni broblemateiddio'r categorïau 'menyw' a 'benywaidd-dra' a gymerwyd yn ganiataol, i raddau, gan ffeminyddiaeth yr ail don. Rhan ganolog o hyn fydd ystyried gwaddol theorïau ôl-fodernaidd ac ôl-strwythurol ym maes ffeminyddiaeth a gwaith theoriwyr megis Judith Butler sy'n dadlau yn erbyn hanfodaeth ac yn trafod rhywedd fel agwedd 'berfformiadol' ar hunaniaeth: 'gender identity [is] a personal / cultural history of received meanings subject to a set of imitative practices'.⁵² Wrth archwilio goblygiadau hanfodaeth, gellid archwilio fframweithiau megis y dull achyddol a gynigir gan Alison Stone. Gan dynnu ysbrydoliaeth o waith Judith Butler a Friedrich Nietzsche, cynigia dull achyddol (genealogical) o ymdrin â'r categorï 'menyw' sy'n galluogi i brofiadau gwahanol fenywod gydfodoli yn yr un gofod heb ddarostwng y drafodaeth i diroedd hanfodaidd: 'the idea of women as a genealogy can be fruitful, both in explaining how women can exist as a social group despite their lack of common characteristics, and in facilitating a reinvigorated feminist politics that avoids recourse to spurious grounds of unity.'⁵³

'Llenyddiaeth menywod' – categorï defnyddiol?

Rhan annatod o'r drafodaeth ynghylch dyfodol y maes yw ystyried a yw'n fuddiol gosod 'llenyddiaeth menywod' mewn categorï ar wahân i'w hastudio. Rai blynyddoedd yn ôl, bûm yn pendroni llawer ynghylch y categorï hwn, a chefais gyfle i glywed y ffeminydd blaenllaw, Toril Moi, yn traddodi darlith o dan y teitl 'I am not a *woman* writer'.⁵⁴ Cyhoeddodd fod dirfawr angen symud oddi wrth y pwyslais cyson a roddir ar rywedd awdur, gan awgrymu bod angen datblygu disgyrsiau ffeminyddol newydd. 'Is it always in the feminist interest to read women writers as *women* writers?' holodd. Er na fentraï ddweud i ba gyfeiriad y gellid mynd â disgyrsiau o'r fath, pwysleisiai fod gwir angen ailasesu'r modd yr ystyriwyd rhywedd yn y gorffennol a chreu disgyrsiau newydd a fyddai'n cyd-fynd yn well â'r oes sydd ohoni. Yn

⁵¹ Chris Weedon, 'Subjects', yn Mary Eagleton (ed), *A Concise Companion to Feminist Theory*, (Oxford: Blackwell Publishing, 2003), t. 118.

⁵² Judith Butler, *Gender Trouble: Feminism and the Subversion of Identity* (New York: Routledge, 1990), t. 138.

⁵³ Alison Stone, 'On the Genealogy of Women', t. 27. Gweler yr erthygl gyfan tt. 16-29.

⁵⁴ Gweler <http://www.tate.org.uk/modern/eventseducation/talksdiscussions/10140.htm>, cyrchwyd 17/4/2008.

hytrach na rhygnu ymlaen i ddilyn cwys hanfodaidd ei sail, felly, awgrymodd y dylid arbrofi â dulliau newydd o ddarllen.

Dyna oedd un o'r ysgogiadau i mi yn bersonol i fwrw iddi i arbrofi â dull creadigol o greu beirniadaeth lenyddol – sef beirniadaeth epistolaid a oedd yn cynnig posibiliadau i ddadansoddi'r broses greu a'r broses ddarllen fel ei gilydd – ac yn caniatáu ystyried pob math o agweddau ar hunaniaeth yn cynnwys rhywedd.⁵⁵ Gwaith Menna Elfyn oedd y canolbwynt, ond roeddwn yn awyddus i herio'r categorieiddio a fu ar ei gwaith ac i ystyried sawl agwedd ar ei hunaniaeth fel bardd yn hytrach na meddwl amdani'n bennaf fel 'woman writer', chwedl Toril Moi. Efallai fod lle inni felly arbrofi ymhellach â dulliau newydd o ddarllen testun sy'n rhoi sylw i rywedd ynghyd â nifer o agweddau eraill ar hunaniaeth unigolyn er mwyn archwilio eu cydberthynas.

Ffeminyddiaeth groesdoriadol?

Yn 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist', pwysleisir nad mudiad monolithig mo 'ffeminyddiaeth'⁵⁶ ac mae lle i ddatblygu'r pwynt ymhellach a meddwl yn nhermau 'ffeminyddiaethau'. *Feminisms*, sylwer, yw teitl y gyfrol a olygwyd Sandra Kemp a Judith Squires⁵⁷ a dyma oedd eu cyfiawnhad dros ei ddews:

The plural of our title (feminisms) reflects both the contemporary diversity of motivation, method, and experience among feminist academics, and feminism's political commitment to diversity — its validation of a multiplicity of approaches, positions, and strategies.⁵⁸

Dathlu amrywiaeth y maent felly o fewn y categori 'ffeminyddiaethau'. Yma yng Nghymru, mae cyfle inni edrych yn helaethach ar ffeminyddiaeth 'groesdoriadol' (intersectional) sy'n ystyried cydberthynas 'rhywedd' ac agweddau eraill ar hunaniaeth megis dosbarth, cenedligrwydd a rhywioldeb, ac enwi ond tair. Yn wir, os oes mwy o bwyslais ar ddisgwrs amlweddog, boliffonig, yn perthyn i ffeminyddiaeth y drydedd don, mae cyfle inni fynnu lle i Gymru a'r Gymraeg fod yn rhan o'r drafodaeth ryngwladol hon. Gallai'r pwyslais ar luosogrwydd o fewn ffeminyddiaeth gynnig cyfle am ragor o drafodaeth â diwyllianau lleiafrifol neu ôl-drefedigaethol yn hytrach na dibynnu'n ormodol ar naratifau Eingl-Americanaidd dosbarth canol, gwyn a deyrnasai yn ystod cyfnod yr ail don.

Ôl-ffeminyddiaeth

Her fawr arall sy'n ein hwynebu wrth drafod datblygiadau ffeminyddol yng Nghymru heddiw yw ymdrin ag 'ôl-ffeminyddiaeth'. Er bod cryn amwysedd ynghylch y term fe'i diffinir gan

⁵⁵ Gweler Rhiannon Marks, *Pe Gallwn, Mi Luniwn Lythyr: golwg ar waith Menna Elfyn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2013).

⁵⁶ 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist', 57.

⁵⁷ Sandra Kemp & Judith Squires (goln), *Feminisms* (Oxford: Oxford University Press, 1997).

⁵⁸ Kemp & Squires (goln), *Feminisms*, t. 3.

Angela McRobbie fel 'an active process by which feminist gains of the 1970s and 1980s come to be undermined', chwedl Angela McRobbie.⁵⁹ Yn rhagymadrodd *Interrogating Postfeminism*, dadleuir bod diwylliant ôl-ffeminyddol yn creu diffiniad simplistig o 'ffeminyddiaeth' a hynny er mwyn ei thanseilio:

Postfeminism broadly encompasses a set of assumptions, widely disseminated within popular media forms, having to do with the "pastness" of feminism, whether that supposed pastness is merely noted, mourned or celebrated.⁶⁰

Awgrymir i'r syniadaeth ddechrau treiddio trwy ddiwylliant poblogaidd Prydain ac America yn y 1990au a bod ymadroddion fel 'go girl!' a 'girl power!' felly yn perthyn i syniadaeth 'ôl-ffeminyddol'. Dibynna byd masnach hefyd ar syniadau ôl-ffeminyddol yn ymwneud â 'dewis' a 'rhyddid' a hynny er mwyn cynyddu gwerthiant nwyddau yn anad dim: 'Postfeminist culture works in part to incorporate, assume, or naturalize aspects of feminism; crucially, it also works to commodify feminism via the figure of woman as empowered consumer.'⁶¹

Pendraw hyn oll yw fod 'ffeminyddiaeth' yn ymddangos fel anachronistiaeth ac yn rhywbeth a berthyn i'r gorffennol sy'n amherthnasol i'r oes sydd ohoni. Mae i hyn oblygiadau pellgyrhaeddol yn y byd academiaidd oherwydd os gadewir i agweddau ôl-ffeminyddol deyrnasu, mae perygl siarad yn nhermau 'mae'r frwydr drosodd' ac i gyrsiau 'merched a llên' ac 'astudiaethau menywod', gael eu hanghofio. Awgryma Kinser mai canfod cwys rhwng syniadau ôl-ffeminyddol a'r ail-don ffeminyddol yw'r her sy'n wynebu'r drydedd don: 'it represents a complex effort to negotiate a space between second-wave and postfeminist thought.'⁶²

Syrffio'r drydedd don?

Pa un a ydym yn cytuno ai peidio â'r syniad o donnau ffeminyddol, mae'n rhaid inni gynabod yr angen i gael trafodaeth estynedig yn y Gymraeg ynghylch lle'r ydym arni o ran beirniadaeth lenyddol ffeminyddol a'r modd yr ydym yn astudio rhywedd. Er na chafwyd gweithgarwch a oedd yn ei diffinio ei hun fel trydedd don yn y Gymraeg, mae lle i archwilio goblygiadau trosiad y don wrth inni ddatblygu fframweithiau cysyniadol sy'n addas ar gyfer cyd-destun llenyddiaeth Gymraeg gyfoes.

Cyn cloi, hoffwn eich atgoffa o'r hyn a nodwyd yn yr erthygl 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist' fel 'y cam pwysicaf oll' wrth feddwl am ddyfodol y maes, sef 'angen symud ymlaen i greu dulliau newydd o gloriannu llenyddiaeth y ddau ryw fel ei gilydd'.⁶³ Sylwer –

⁵⁹ Angela McRobbie, 'Postfeminism and Popular Culture: Bridget Jones and the New Gender Regime' yn Tasker & Negra, *Interrogating Postfeminism*, t. 27.

⁶⁰ Yvonne Tasker & Diane Negra, 2007, *Interrogating Postfeminism*, London & Durham: Duke University Press, t. 1.

⁶¹ Tasker & Negra, *Interrogating Postfeminism*, t. 2.

⁶² Amber Kinser, 'Negotiating Spaces For/Through Third-Wave Feminism', t. 135.

⁶³ 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist', t. 54.

'y ddau ryw fel ei gilydd'. Tybed felly a fyddai meddwl am ffeminyddiaeth y don nesaf o dan y term ymbarél 'Astudiaethau Rhywedd' yn gymorth inni edrych ymhellach ar gysyniadau'n ymwneud â benyweidd-dra a gwrywdod⁶⁴ ynghyd â pherfformiad hunaniaeth ryweddol yn y gymdeithas? Gallai hyn gynnig llwybr cynhwysol sy'n ystyried agweddau ar hunaniaethau trawsrywedd ac yn bwysicach fyth gallai gynnig cyfle i archwilio'r tir llwyd hwnnw rhwng yr hen gategorïau hanfodaidd.

Wrth i'n hawduron cyfoes dorri tir newydd yn eu gweithiau llenyddol, mae angen dulliau arbrofol o feirniadu sy'n caniatáu trafodaeth ar yr agweddau amrywiol a berthyn i 'hunaniaeth'. Edrychaf ymlaen yn eiddgar felly at weld pa sgysiau newydd y gallwn ni eu dechrau a pha fframweithiau deallusol a fydd yn ein galluogi i gael y trafodaethau hyn.

~

Anfonwyd 1/2/16, 10.33am

Oddi wrth: MarksR@caerdydd.ac.uk

At: dyheadisyrffio@net.cymru

Pwnc: Y Gymraes a'i Llên

Helo!

Diolch iti am dy neges. Braf iawn dy weld y diwrnod o'r blaen a da clywed i ti fwynhau'r gynhadledd. Doedd dim angen iti boeni mai menywod yn unig fyddai yno wedi'r cyfan! Rwy'n cytuno'n llwyr â thi – byddai'n braf iawn gweld llawer mwy o drafod ynghylch dyfodol y maes, a hynny ymhlith menywod a dynion gan fod rhywedd yn agwedd ar hunaniaeth pob un ohonom.

Diolch iti am anfon y ddolen ar y we ynghylch y bedwaredd don. Pam na wnes i drafod hon ar y diwrnod? Cwestiwn da! Hyd yma, ni fu llawer iawn o drafodaeth ar oblygiadau'r bedwaredd don i'r byd academiaidd na'r modd yr ydym yn theoreiddio ac yn dehongli llenyddiaeth. Welaist ti e-lyfr Kira Cochrane – *All the Rebel Women*? Mae'n destun cymharol argraffiadol ond yn sicr yn werth ei ddarllen er mwyn deall trywydd yr hyn a ystyria yn bedwaredd don ffeminyddol. Serch hynny, nid yw'n cynnig fframwaith ar gyfer trafodaethau academiaidd, fel y cydnebydd ei hun: 'While the 1970s second wave was awash with theory,

⁶⁴ Gellid parhau â'r drafodaeth a gychwynwyd yn Angharad Price a Sioned Puw Rowlands (goln), *Tu Chwith – Gwrywdod*, 9 (Gwanwyn 1998). Yno eir ati i archwilio agweddau ar 'wrywdod' a dadleua'r golygyddion '[nad] hanfod monolithig mohono ond gwreichion sy'n tasgu oddi ar gefn ffactorau emosiynol a deallusol – ffactorau sy'n tynnu merched yn ogystal â dynion i'w côl, sydd yn magu o dan geseiliau agweddau cymdeithasol eraill, gan gynnwys hil, rhywioldeb, cenedligrwydd, a dosbarth', t. 8.

the fourth wave feels quite different, generally more active than academic.⁶⁵ Un o'r heriau sy'n ein hwynebu yn y Gymraeg yw dadansoddi goblygiadau'r drydedd don yn gyntaf, ond yn sicr bydd angen cadw golwg o ran y bedwaredd don yn rhyngwladol.

Un peth difyr sy'n codi yn nhrefodaeth Cochrane yw'r sôn am gyfryngau cymdeithasol a'r cyfleoedd a gynigir gan y we i drafod ffeminyddiaeth, e.e. pwysigrwydd blogiau, Twitter a Facebook i gynnal cymunedau ar-lein. Efallai mai dyna'r ffordd ymlaen inni gynnal deialog?

Gyda llaw, welaist ti'r drafodaeth ar Twitter ynghylch y gynhadledd ddydd Sadwrn? Cer i'r hashnod, '#ygyraes', ac fe weli ddolen 'Storify' sy'n crynhoi trafodaethau'r dydd yn y gynhadledd, ynghyd ag ymatebion gan rai a fynychodd y diwrnod. Cer ati i ymuno yn y drafodaeth!

Pob lwc gyda'r ymchwil ac edrychaf 'mlaen at dy weld cyn bo hir,

Cofion,

Rhiannon

⁶⁵ Kira Cochrane, *All the Rebel Women: the rise of the fourth wave of feminism*. Guardian Books (December 5th, 2013), t. 60.